
Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2022-23

Mehefin 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2022-23

Mehefin 2023

senedd.cymru


WELSH
YOUTH
PARLIAMENT
SENEDD
IEUENCTID
CYMRU
Capitol

# Cynnwys

**Rhagair ........................................................................................................ 6**

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn ........................................................................ 8**

**Ein Dull o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant............................................. 9**

**Ein Gwerthoedd............................................................................................ 10**

**Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol ...................................................................... 11**

**Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd 15**

**Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo.................................. 24**

**Senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru............................................ 33**

# Rhagair

## Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Mae amrywiaeth a chynhwysiant wedi dod yn bynciau cynyddol bwysig yn y gweithle modern. Wrth i gymdeithas barhau i dyfu ac esblygu, felly hefyd y mae ein disgwyliadau o ran sut rydym yn rhyngweithio â'n gilydd. Yng Nghomisiwn y Senedd, credwn fod creu gweithle parchus, amrywiol a chynhwysol, yn ogystal â bod o fudd i'n gweithwyr, hefyd yn gwella ein gallu i gynrychioli pobl Cymru ac ymgysylltu â hwy, ac yn ein helpu i redeg y Senedd yn effeithiol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar y gwaith a gyflawnwyd gennym i wneud cynnydd o ran amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth i ni ddod yn fyd ôl-bandemig a pharhau i ddod i arfer â ffyrdd newydd o weithio, rydym yn parhau i groesawu amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'n gwerthoedd craidd.

Mae digwyddiadau amrywiol ar draws y byd dros y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu materion, gwahaniaethau ac anghydraddoldebau cymdeithasol hirsefydlog y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy. Ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon am y camau cadarnhaol sydd wedi'u cymryd. Rydym yn parhau i gymryd camau pendant i feithrin diwylliant o barch a pherthyn, lle mae ein polisïau a'n harferion yn gwneud ein sefydliad yn fwy cynhwysol a hygyrch i'n staff, yn ogystal ag Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026[1] newydd yn canolbwyntio ar ein pedwar prif amcan o ran amrywiaeth a chynhwysiant:

- Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol;
- Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd;
- Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo; a
- Senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru.

Rydym yn falch o fod yn cymryd camau pendant i fod ar flaen y gad ymhlith cyflogwyr cynhwysol a blaengar yng Nghymru. Mae'n bwysig inni arwain drwy esiampl, gan barhau i drawsnewid ein sefydliad ein hunain.

Rydym yn cydnabod bod creu gweithle gwirioneddol amrywiol a chynhwysol yn broses barhaus sy'n gofyn am ymdrech ac ymroddiad hirdymor. Drwy rannu'r adroddiad hwn, rydym yn gobeithio annog tryloywder ac atebolrwydd yn ein hymdrechion i adeiladu gweithle mwy amrywiol a chynhwysol. Gan edrych yn ôl ar yr hyn a wnaed gennym, yn ogystal â'r hyn y bwriedir ei wneud nesaf, rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r daith sydd o'n blaenau.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar yr adroddiad hwn, ac o ran sut y gallem ystyried gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd



**Joyce Watson AS**
Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am gyflogeion a chydraddoldeb

[1] https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/ein-strategaeth/

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

## YMLAEN

Croesawyd ein carfan gyntaf o **Interniaid Graddedig YMLAEN**. Cafodd y cynllun ei baratoi i ddarparu lleoliadau gwaith dros dro i raddedigion o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Mae ein hail gynllun wedi ei lansio a bydd yn cychwyn ym mis **Medi 2023**.

## EIN GWAITH

Rydym wedi cysylltu â **chymunedau ledled Cymru** i annog cyfranogiad democrataidd ac ymgysylltiad â **gwaith y Senedd**, gan gefnogi ymchwiliadau pwyllgorau.

Rydym wedi monitro **amrywiaeth y tystion sy'n ymddangos gerbron pwyllgorau** i sicrhau bod aelodau'r pwyllgorau yn clywed amrywiaeth o leisiau.

Mae ein **hathrawon a'n gweithwyr ieuenctid** cymwysedig wedi parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i **ddatblygu ymwybyddiaeth ddemocrataidd** ac i gefnogi Senedd Ieuenctid Cymru.

Rydym wedi **croesawu** pobl i arddangosfeydd sy'n dathlu amrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys arddangosfeydd ar **bobl hŷn**, po**bl ag anableddau dysgu**, **ffoaduriaid** a **Mis Hanes Pobl Dduon**.

## EIN STAFF

Rydym wedi dechrau casglu'r **wybodaeth gefndirol economaidd gymdeithasol** ar gyfer ein staff ac er mwyn i ymgeiswyr ddeall yn well pwy sy'n gweithio i ni a phwy sy'n ein gweld yn gyflogwr o ddewis.

Rydym yn parhau i **ddatblygu fel sefydliad cynhwysol** lle mae ein staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i **fyw ein gwerthoedd**.

Datblygu **LEAD**, ein rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer ein cydweithwyr o Leiafrifoedd Ethnig

# Ein Dull o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i fod yn senedd hygyrch sy’n cynrychioli holl bobl Cymru ac yn croesawu pobl o bob rhan o’r byd. Ein nod yw bod yn sefydliad sy’n dangos esiampl ac sy’n gynhwysol i’n staff, Aelodau o’r Senedd a’r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein **strategaeth** ar gyfer y chweched Senedd yn nodi ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant ac yn amlinellu’r amcanion a ganlyn ar gyfer gweddill tymor y Senedd:

- Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol
- Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd
- Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo
- Senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru

Fel rhan o’r strategaeth hon, mae ein gwasanaethau a’n timau ar draws Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am ystyried amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar eu gwaith. Rydym yn parhau i ymdrechu i fod yn lle croesawgar i weithio ynddo ac i ymweld ag ef, sy’n cynrychioli pawb yng Nghymru.

Mae ein strategaeth ar gael ar ein gwefan yn llawn, ar ffurf gryno, fel fersiwn Hawdd ei Darllen ac yn Iaith Arwyddion Prydain.

**https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/ein-strategaeth/**

# Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd corfforaethol yn cadarnhau ein hymroddiad i fod yn barchus, cynhwysol a charedig, a chefnogi Senedd Cymru mewn ffordd sy'n dathlu ein cyfraniadau unigol at wasanaethu pobl Cymru.

**PARCH**

—

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol

**ANGERDD**

—

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru

**BALCHDER**

—

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

**UN TÎM**

YDYM NI

# Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol

Mae cydweithwyr ar draws y sefydliad yn gweithio'n arloesol i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith.

## Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn galluogi cydweithwyr yng Nghomisiwn y Senedd i ystyried sut y gallai eu gwaith effeithio ar wahanol bobl. Maent yn ffordd o sicrhau bod anghenion gwahanol bobl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu neu adolygu pob math o weithgareddau fel polisïau, gweithdrefnau neu brosiectau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd asesiadau effaith ar ystod o waith gan gynnwys adolygiadau o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, fel codi a chludo; iechyd, diogelwch a llesiant; prosiect ar-lein offer sgrin arddangos; cyfnodau hysbysu; a chymorth cyntaf.

## Ystâd hygyrch

Rydym yn adolygu hygyrchedd ein hystâd yn barhaus drwy gynnal archwiliadau cynnal a chadw misol, gweithredu ar adborth, mabwysiadu arfer gorau ac ystyried gofynion mynediad ar gyfer yr holl waith adnewyddu sydd wedi'i gwblhau a chynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ôl yr angen.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi:

- ymgysylltu â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) i gynnal archwiliad hygyrchedd o'r Senedd, gydag argymhellion yn cael eu gweithredu neu'u cynnwys mewn gwaith adnewyddu yn y dyfodol;
- gwneud newidiadau i'r palmant cyffyrddol y tu allan i'r Senedd i gynyddu gafael a gwelededd;

- uwchraddio'r toiledau hygyrch, a'r toiledau i bawb, yn adeilad y Pierhead;
- cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y gwaith o ailddatblygu man arddangos parhaol y Pierhead;
- dyrannu ail ystafell dawel yn y Senedd y gellid ei defnyddio gan yr Aelodau, eu staff, staff y Comisiwn ac ymwelwyr;
- parhau â'r rhaglen o osod goleuadau LED i wella gwelededd yn y Senedd ac ardaloedd eraill ar draws yr ystâd i bobl â nam ar eu golwg ac epilepsi ffoto-sensitif; a
- chynnal archwiliad allanol ynghylch ein gwasanaeth dolen sain mewn ystafelloedd cyfarfod a mannau cyffredin drwy'r holl ystâd, gan weithredu'r argymhellion fel gosod systemau dolen sain newydd wrth bob derbynfa.

Ffyrdd eraill y caiff amrywiaeth a chynhwysiant eu cynnwys yn ein gwaith:

**Atebolrwydd gan uwch swyddogion** - er mwyn hyrwyddo atebolrwydd a pherchnogaeth o'n **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant,** mae gan bob un o aelodau ein Bwrdd Gweithredol amcan amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hadolygiadau perfformiad.

**Alinio strategaethau** - mae ein Cynllun Datblygu Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaethau unigol wedi'u halinio â'n Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod ein gweithgareddau yn strategol, bod ganddynt adnoddau a'u bod yn gyflawnadwy.

**Hyfforddiant** - amrywiaeth a chynhwysiant yw conglfeini ein darpariaeth hyfforddiant, gyda chyrsiau penodol fel ymwybyddiaeth drawsrywiol ac iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr llinell. Rydym hefyd yn cynnwys pynciau cysylltiedig mewn mathau eraill o hyfforddiant i wneud yn siŵr bod cynhwysiant yn cael ei ystyried bob amser ac ym mhob ffordd.

**Meithrin partneriaethau** - mae gennym berthynas waith agos gyda nifer o bartneriaid strategol allanol sy'n darparu cyngor, arweiniad ac adnoddau ar wahanol bynciau i'n helpu i wreiddio cynhwysiant ymhellach.

**Recriwtio** - Mae ein system recriwtio ddi-enw yn galluogi ymgeiswyr am swyddi i fod yn hyderus y bydd rhagfarnau yn cael eu dileu o'r broses ymgeisio. Rydym hefyd wedi parhau i:

- Sefydlu partneriaeth strategol ag asiantaeth chwilio am swyddogion gweithredol er mwyn sicrhau amrywiaeth y talent sydd ar ddod a'r paneli ar gyfer uwch benodiadau i'r Comisiwn, penodiadau cyhoeddus, a phenodiadau'r Goron;
- Monitro prosesau recriwtio a gwella'r drefn asesu,
- Creu strategaethau hysbysebu pwrpasol ar gyfer ymgyrchoedd, gwella amrywiaeth paneli, a llunio swydd-ddisgrifiadau a phecynnau ymgeiswyr cynhwysol, ac
- Adolygu adborth gan ymgeiswyr a rheolwyr cyflogi, a gweithredu arno lle bo'n briodol, oll gyda golwg ar ddenu'r ystod ehangaf o dalent.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, mae ein Tîm Recriwtio wedi datblygu cynllun denu sy'n cynnwys strategaethau i ehangu'r talent sydd ar ddod, denu ymgeiswyr i swyddi gwag anodd eu llenwi a mynd ati'n barhaus i ddatblygu deunyddiau marchnata a gweithgareddau allgymorth. Mae canllawiau ymgeiswyr hefyd wedi'u hadolygu i roi eglurder ar y prosesau presennol a sicrwydd i ymgeiswyr a allai fod yn anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio.

Maes gwaith allweddol arall yw'r adolygiad o ganllawiau recriwtio rheolwyr a deunyddiau hyfforddi, gyda'r bwriad o ddatblygu pecyn cymorth recriwtio cynhwysol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn paneli recriwtio. Bydd y cysyniadau o duedd, braint a chreu profiad cadarnhaol i'r ymgeisydd yn themâu canolog yn y canllawiau a'r deunyddiau hyfforddi fel ei gilydd.

**Caffael** - caiff cydraddoldeb ei gynnwys fel rhan o'n hasesiadau o risg cynaliadwyedd ar ddechrau proses gaffael ac fel rhan o'r broses cyn-gymhwyso i gyflenwyr. Ni fydd cyflenwyr sy'n methu â dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb yn llwyddo i ennill ein busnes. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu contractau gyda'n cyflenwyr, ac un o'r eitemau rheolaidd ar yr agenda yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae Comisiwn y Senedd yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac rydym yn sicrhau bod cyflogwyr yn talu uwchlaw y cyflog byw i'n contractwyr mewnol. Mae Comisiwn y Senedd yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac rydym yn sicrhau bod cyflogwyr yn talu uwchlaw y cyflog byw i'n contractwyr mewnol. Rydym yn anelu at weithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a

sicrhau arferion cyflogaeth teg ac yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion hynny yr ydym o'r farn eu bod yn annheg. Gan nad ydynt yn gyflogeion y Comisiwn, ni chafodd staff contractwyr y taliad costau byw a wnaeth Comisiwn y Senedd i rai o'i staff (y rhai sy'n ennill llai na £32,000 y flwyddyn) ym mis Ionawr 2023.

Rydym yn anelu at weithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg ac yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion hynny yr ydym o'r farn eu bod yn annheg. Gwnawn hyn trwy ein telerau ac amodau. Yn ogystal, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu contractau gyda'n prif gontractwyr, lle'r ydym wedi mynnu eu bod yn talu uwchlaw'r cyflog byw go iawn i'w staff ac yn gwella'u polisi salwch.

**Diogelwch** –mae ein gwasanaeth diogelwch yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant drwy wneud y canlynol:

- dod o hyd i arfwisg corff rhyw-benodol gan fod y festiau safonol yn anghyffyrddus i swyddogion diogelwch benywaidd;
- teilwra rotâu i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen ar yr ymwelwyr rydym yn eu disgwyl. Mae staff yn cael eu briffio os caiff anghenion hysbys eu nodi fel grwpiau o bobl ag awtistiaeth, neu grwpiau â nam ar y synhwyrau;
- sicrhau bod hysbysebion swyddi ar gyfer rolau yn y gwasanaeth diogelwch wedi'u cynllunio'n benodol i ddenu cynulleidfa mor amrywiol â phosibl. Caiff swydd-ddisgrifiadau eu hysgrifennu i chwalu unrhyw rwystrau, gan amlygu'r hyfforddiant a ddarperir pan fydd unigolyn yn y swydd. Mae'r delweddau ym manyleb y swydd hefyd yn cynnwys yr aelodau tîm amrywiol sydd yn eu swyddi ar hyn o bryd; a
- phenodi gweithiwr allgymorth i helpu i sicrhau cartrefi a swyddfeydd yr Aelodau. Yn ogystal â mesurau diogelwch, maent wedi bod yn ystyried anghenion hygyrchedd ac yn cynghori arnynt.



Mae'r diwylliant cadarnhaol a'r agwedd broffesiynol gyfeillgar, ynghyd â gwaith caled, wrth wraidd yr hyn a wnawn yn y tîm Diogelwch. Ers gweithio yma, rwyf wedi gweld sut mae Senedd Cymru yn cadw amrywiaeth yn rhan o'i gwerthoedd craidd. Rwyf wedi tyfu o fewn fy hun, rwy'n falch o fod yn rhan o'r tîm ac rwy'n edrych ymlaen at yrfa hir yma.
**Shahzad, Swyddog Diogelwch**

# Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd

Mae ein holl gydweithwyr yn deall eu rôl o ran hyrwyddo cynhwysiant a meithrin gweithle cynhwysol ac amgylchedd seneddol. Mae staff uwch yn fwy atebol am gyflawni'r strategaeth hon.

## Hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant a chodi ymwybyddiaeth

Fel cyflogwr, rydym yn deall bod dysgu a datblygu ein staff yn allweddol i ddatblygu gweithlu ymgysylltiol a chynhwysol. Mae cymorth a hyfforddiant cynhwysiant ar gael drwy gydol y cylch bywyd cyflogaeth, o roi arweiniad ar sut i lenwi ffurflen gais a recriwtio cynhwysol, i gynefino, datblygu gyrfa, hyfforddi rheolwyr, codi ymwybyddiaeth a pharatoi ar gyfer ymddeoliad.

Ar ben hyfforddiant urddas a pharch blaenorol, rydym wedi dechrau cyflwyno hyfforddiant urddas a pharch gorfodol i bob aelod o staff. Bydd yr hyfforddiant hwn yn parhau drwy gydol 2023 ac yn ymdrin â sut i nodi ymddygiad amhriodol a mynd i'r afael â hyn. Rydym am sicrhau bod gan ein holl staff yr hyder i adnabod ymddygiad o'r fath ac i wybod y gweithdrefnau cywir i'w dilyn wrth godi mater.

### Mis Cynhwysiant

Ym mis Medi 2022, fe wnaethom ni ymuno â chydweithwyr seneddol ledled y DU i gynnig cyfres o gyflwyniadau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu i ddathlu cynhwysiant. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys ein cyflwyniad "Cynghreiriad a fi", yn ogystal â sesiynau hyfforddi ar ddementia, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, niwrowahaniaeth, y menopos, cynhwysiant traws, cyfrifoldebau gofalu, ac ymwybyddiaeth weledol.

### Rôl hyfforddi'r rheolwr

Lansiodd y Senedd, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban raglen hyfforddi ar y cyd ar gyfer rôl hyfforddi'r rheolwr i reolwyr ar bob lefel i ddarparu'r wybodaeth a'r offer i wella datblygiad tîm, creadigrwydd a pherchnogaeth ar dasg.

Mae'n hysbys bod sgiliau hyfforddi effeithiol yn hybu hyder, yn hwyluso cyfathrebu effeithiol ac yn gwella perfformiad, gan arwain at well morâl, mwy o foddhad swydd a chynhyrchiant uwch.

Roedd y dull rhyngseneddol yn rhoi mynediad i ni at ystod ehangach, mwy amrywiol o hyfforddwyr ag ystod eang o brofiad a setiau sgiliau, gwybodaeth a chefndir ategol, gan gynnig cyfle gwerthfawr i ffurfio perthnasoedd a rhwydweithiau gwaith rhyngseneddol.

## Hyfforddiant datblygu LEAD ar gyfer staff lleiafrifoedd ethnig

Mae aelodau o'n rhwydwaith gweithle Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol a'n interniaid graddedig YMLAEN wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli a gynlluniwyd i ddatblygu cymhwysedd a hyder rheolwyr gweithredol neu ddarpar reolwyr. Mae'r hyfforddiant Dysgu – Ymgysylltu – Gweithredu – Cyflwyno hwn yn cael ei gefnogi gan ein tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol fel rhan o'n dull esblygol o reoli talent.

## Codi ymwybyddiaeth ar gyfer diwylliant cynhwysol

Rydym yn ymdrechu i fod yn sefydliad croesawgar a chynhwysol, lle mae ein staff yn cael y cyfle i ddysgu am fywydau a phrofiadau gwahanol bobl. Drwy ddatblygu diwylliant o chwilfrydedd a dysgu, gallwn ddeall ein cydweithwyr yn well, yn ogystal â'r Aelodau a'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Eleni, rydym wedi hyrwyddo amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r menopos; diabetes; straen ac iechyd meddwl; Mis Hanes Pobl Dduon; Mis Hanes LHDTC+; colli babi; cydbwysedd bywyd a gwaith; Wythnos Ffoaduriaid y Byd; Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn Roma; Ramadan; monitro cefndir economaidd-gymdeithasol; a Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia.

## Urddas a pharch

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn sefydliad cynhwysol sy’n rhydd rhag bygwth ac aflonyddu Cyflwynwyd polisi urddas a pharch teirochrog yn 2018, a chefnogir y polisïau drwy hyfforddiant, swyddogion cyswllt a chymorth ar gyfer llesiant (fel iechyd galwedigaethol a’n Rhaglen Cymorth i Weithwyr). Caiff y polisi, a sut i gael mynediad ato, ei gyfleu’n rheolaidd i bawb drwy amryw ffyrdd fel erthyglau ar y dudalen newyddion, cyfarfodydd lefel gwasanaeth a manylion llawn ar dudalennau penodedig ar y fewnrwyd.

## Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

Mae ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle yn ein helpu ar ein taith i sicrhau diwylliant gweithio cynhwysol sy'n hybu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithlu a lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u parchu a’u gwerthfawrogi. Mae'r rhwydweithiau'n allweddol i'r sefydliad yn ein nod i sicrhau amgylchedd gwaith diogel, cynhwysol ac amrywiol i bawb. Gall y rhwydweithiau hefyd roi cymorth i gael mynediad at gyfleoedd dysgu i feithrin datblygiad personol a gyrfa, fel sgiliau cyfathrebu, siarad cyhoeddus, sgiliau cyflwyno, sgiliau rheoli, a hyfforddiant pendantrwydd.

Gyda gweithio hybrid yn dod yn arferol i lawer o staff y Senedd, mae ein rhwydweithiau wedi cydnabod pwysigrwydd cynyddol bod yn weladwy ac ar gael ar-lein. Eleni, mae ein rhwydweithiau wedi gwneud amrywiaeth o waith i'n helpu i ddod yn sefydliad mwy cynhwysol. Maent wedi:

- darparu gofod diogel i aelodau a chynghreiriaid ddarparu cymorth i gymheiriaid, rhannu straeon, a thrafod awgrymiadau defnyddiol;
- hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd ymwybyddiaeth, gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Bywyd a Gwaith, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, chwifio baner Balchder Blaengar drwy gydol mis Chwefror ar gyfer Mis Hanes LHDTC+, a Mis Hanes Pobl Dduon;
- cynnal arolwg o aelodau a chynghreiriaid i ddeall beth yw’r ffordd orau o symud y rhwydweithiau ymlaen;
- gweithio gyda'n tîm dysgu a datblygu i ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff, fel iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr llinell;
- gweithio gyda rhwydweithiau eraill y gwasanaeth sifil i gynnal digwyddiadau ar gyfer aelodau'r rhwydwaith;
- cyfrannu at ystod o asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb; ac
- ysgrifennu erthyglau i hyrwyddo’r Senedd fel gweithle cynhwysol.

Eleni, croesawyd dau gyd-Gadeirydd newydd INSPIRE, ein Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd. Dyma pam y gwnaethant wirfoddoli:

> *“Rydym ni eisiau i fenywod eraill yn y Senedd wybod nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain pan ddaw i’r heriau a’r rhwystrau y gallwn eu hwynebu, a bydd y rhwydwaith yn cynnig lle diogel i drafod y ffactorau hynny, a bod yn gefn i’n gilydd. Mae hefyd yn gyfle i ddathlu’r menywod gwych sy’n gweithio gyda ni yn y Senedd – mae llawer ohonyn nhw’n ein hysbrydoli ni bob dydd.”*

## PLWS yn Pride

Ym mis Awst 2022, roedd Manon Antoniazzi, ein Prif Weithredwr a Chlerc, yn falch iawn o ymuno ag aelodau ein rhwydwaith PLWS, cyfeillion LHDTC+, Aelodau o'r Senedd ac aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i orymdeithio yng ngorymdaith flynyddol Pride Cymru drwy Gaerdydd. Dyma'r hyn yr oedd ganddi i'w ddweud:

> *"Roedd yn bleser gennyf gloi fy nhoriad drwy ymuno â chydweithwyr, Aelodau ac Aelodau Senedd Ieuenctid yn Pride Cymru yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn gŵyl y banc. Mewn ysbryd hapus, dathliadol, aeth yr orymdaith ar ei ffordd yn araf o amgylch canol dinas Caerdydd er mawr lawenydd i filoedd o wylwyr. Roeddwn yn falch o fod yn rhan o bresenoldeb y Senedd ac yn falch iawn o fod yn gorymdeithio yn enw sefydliad sydd, fel yr oedd ein baneri yn ei ddweud, yn cynrychioli holl bobl Cymru."*









## Cefnogi iechyd a llesiant

Mae gennym Strategaeth Llesiant newydd ar gyfer 2022-25 gyda'r amcan a ganlyn:

> *"...diogelu, hyrwyddo a chefnogi gallu sefydliadol trwy gyflawni diwylliant ac amgylchedd yn y gweithle lle mae iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu hyrwyddo gan bawb, lle mae pobl yn gallu dod â'u holl hunan i'r gwaith, a lle mae staff yn cael eu galluogi a'u grymuso i wneud dewisiadau sy'n eu cefnogi i fyw'n dda a gweithio'n dda."*

Yn y strategaeth hon, rydym wedi cynnwys data amrywiaeth a chynhwysiant yn seiliedig ar ein harolygon pwls llesiant rheolaidd. Ym mis Medi 2022, fe wnaethom ychwanegu cwestiwn newydd i'r arolwg - '*i ba raddau ydych chi'n cytuno y gallwch ddod â'ch holl hunan i'r gwaith - bod yn chi eich hun yn y gwaith heb feirniadaeth*'. Roedd 81 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Mae monitro canlyniadau o'r un arolwg yn dangos, wrth symud ymlaen, fod angen inni ganolbwyntio'n benodol ar sut mae modd darparu cymorth llesiant i bobl anabl, a phobl sy'n gweithio ar ein lefel cymorth tîm.

Mae'r Strategaeth Llesiant hefyd yn dweud:

> *"I ennyn newid diwylliannol/cyfranogiad staff mewn rhaglenni llesiant, mae'n hanfodol i uwch-reolwyr ddangos ymrwymiad i lesiant ac ymgysylltu â mentrau. Dull gweithio mewn partneriaeth rhwng Adnoddau Dynol ac uwch-reolwyr i ddatblygu cynlluniau gweithredu llesiant sy'n cyflawni."*

O ganlyniad, mae aelodau o'n Tîm Arwain wedi creu cynlluniau gweithredu llesiant ar gyfer pob gwasanaeth sy'n nodi'r camau allweddol y byddant yn eu cymryd i gefnogi llesiant yn eu timau. Mae'r rhain yn seiliedig ar y themâu allweddol a nodwyd ar gyfer eu gwasanaethau o arolygon llesiant blaenorol.

## Cymuned y Senedd - Un Tîm

Mae gweithio mewn ffordd fwy ystwyth, gyda rhai pobl yn gweithio'n llwyr ar y safle, rhai yn llwyr gartref, a rhai yn gweithredu model hyblyg, yn golygu ein bod wedi gorfod gweithio'n galed i gynnal ein diwylliant fel gweithle croesawgar a chyfeillgar, a'n hymdeimlad o fod yn gymuned yn y Senedd. Mae ein cydweithwyr yn defnyddio cyfarfodydd tîm rheolaidd, rhwydweithiau cefnogol, a fforymau ar-lein i gadw mewn cysylltiad ag eraill.

Yn ein hymdrechion i ddathlu elfen Un Tîm ein gwerthoedd corfforaethol, eleni fe wnaethom ni gynnal ein cyfarfod cyntaf holl staff cyntaf wyneb yn wyneb gydag opsiwn hybrid i'r rhai oedd yn methu bod yn bresennol. Roedd y cyfarfod yn cynnwys y Gwobrau Cydnabyddiaeth Blynyddol, a oedd yn cydnabod ac yn dathlu gwaith staff sy'n cynrychioli gwerthoedd y sefydliad, fel y'u henwebwyd gan eu cydweithwyr.

Hefyd, lansiwyd ein Heisteddfod gyntaf i'r sefydliad cyfan ar 1 Mawrth 2023. Diben y digwyddiad hwn yw dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol Gymreig amrywiol ynghyd â thalent staff y Comisiwn, yr Aelodau a'u staff cymorth. Y nod yw meithrin gwell ymdeimlad o falchder a chydweithio yng nghymuned y Senedd.

## Cynhyrchion mislif am ddim i holl ddefnyddwyr yr adeilad

Yn dilyn awgrym gan Ochr Undebau Llafur Comisiwn y Senedd, mae cynhyrchion mislif ar gael yn rhad ac am ddim ar draws ystâd y Senedd i bawb sydd eu hangen. Maent ar gael am ddim ym mhob toiled ar draws ein hystâd yn ogystal ag mewn cyfleusterau hygyrch a 'lleoedd newid' eraill. Mae'r cynhyrchion hyn yn hygyrch i'r fenywod, pobl anneuaidd, a dynion traws sy'n defnyddio ein hystâd ac sydd eu hangen.

Mae'r fenter hon yn hyrwyddo urddas mislif i bawb sy'n defnyddio ein hystâd, yn unol ag ymrwymiad y Senedd o ran cynhwysiant a chefnogi llesiant cyflogeion, ac amcan Llywodraeth Cymru i hyrwyddo urddas mislif ledled Cymru.

## Gwirfoddoli

Mae ein polisi absenoldeb arbennig yn rhoi'r hawl i bob aelod o staff gael pum diwrnod o wyliau gwirfoddoli â thâl y flwyddyn. Mae'r polisi wedi'i ddefnyddio er budd aelodau unigol o staff a'r gymuned leol mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys dosbarthu prydau cymunedol am ddim ar gyfer elusen a mynd â chŵn am dro yn wirfoddol.

Ymarfer adeiladu tîm yng Nghanolfan Ganser Felindre

*"Aeth grŵp bach o'r tîm diogelwch ar ymweliad â Chanolfan Ganser Felindre i'w cynorthwyo i gynllunio ar gyfer digwyddiad Llysgenhadon Ifanc. Roedd canser, mewn rhyw ffordd, wedi effeithio ar y plant a oedd yn mynychu'r digwyddiad , a hynny naill ai oherwydd eu bod yn cael triniaeth eu hunain, neu bod aelod o'u teulu agos yn cael triniaeth. Roedd busnesau lleol wedi cyfrannu eitemau fel planwyr pecyn fflat, offer garddio ac ati, felly fe wnaethom ni fel tîm bach helpu i adeiladu'r planwyr i baratoi ar gyfer y digwyddiad. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil iawn, gan ganiatáu amser i'n grŵp bach weithio gyda'n gilydd fel tîm, ond hefyd cyfrannu at achos da, a hyrwyddo enw da tîm diogelwch y Senedd."*

*- Rheolwr Gweithrediadau Diogelwch*

















# Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo

Mae ein gweithlu'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'r Senedd yn ei gwasanaethu ac mae'n gynrychioliadol ar bob lefel yn ein sefydliad. Mae'r ystod ehangaf o bobl yn ystyried Comisiwn y Senedd fel darpar gyflogwr deniadol sy'n cynnig profiad unigryw, gwerth chweil i weithwyr sy’n gweithio wrth galon democratiaeth yng Nghymru. Mae ein cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i wireddu eu llawn botensial.

## Defnyddio data

Mae ein system recriwtio ar-lein yn ein galluogi i gasglu data demograffig dienw am bob ymgeisydd am swydd. Caiff data mewnol eu casglu drwy ein system AD/Cyflogres a’u cyflwyno mewn ffordd sy’n golygu nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn. Dim ond rhan fach iawn o’r tîm AD sydd â mynediad at y data crai.

Rydym wedi parhau i gasglu gwybodaeth gefndir economaidd-gymdeithasol am bob ymgeisydd am swydd ac eleni rydym wedi casglu data am ein gweithlu.

Caiff adroddiadau gweithlu, recriwtio a chyflog cyfartal eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad naratif hwn.

I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Rhagenwau ym mis Hydref 2022, diweddarwyd ein system AD i alluogi staff i gofnodi eu rhagenwau dewisol, yn ogystal â darparu opsiynau i hunan-ddisgrifio eu hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Lluniodd rhwydwaith PLWS daflen ffeithiau ategol ynghylch rhagenwau a gwybodaeth am sut i gynnwys rhagenw dewisol mewn llofnodion e-bost.

## NIFER STAFF Y COMISIWN

| 486 | 474 | 480 |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |

## RHYW A RHYWEDD

| | MENYWOD | DYNION |
|---|---|---|
| Nid oes staff wedi nodi eu bod yn anneuaidd. Menywod yw 48 y cant o'r staff yn ein tri band cyflog uchaf, ychydig yn llai na 50 y cant y llynedd. | 50% | 50% |
| **Patrwm gweithio** | 75% Amser llawn | 93% Amser llawn |
| | 25% Rhan-amser | 7% Rhan-amser |
| **Recriwtio** Ymgeiswyr anneuaidd yw cyfran o gyfanswm y cynigion swyddi am rolau allanol (1.6 y cant). | 53.8% Cynigion swyddi mewnol | 46.2% Cynigion swyddi mewnol |
| | 55.7% Cynigion swyddi allanol | 41.0% Cynigion swyddi allanol |

### Hunaniaeth o ran rhywedd ac ailbennu rhywedd

Nifer yr aelodau o staff sydd wedi nodi eu bod yn draws. O'r holl geisiadau am rolau allanol, cafwyd 3.3 y cant gan ymgeiswyr a nododd eu bod yn draws mewn cymhariaeth â 2.6 y cant o'r ymgeiswyr yn 2022.

## OEDRAN

### Y gweithlu

Mae 21.6 y cant o'n gweithlu yn 51 oed neu'n hŷn, cynnydd o 20.9 y cant ers y llynedd.

| <21 | 21-30 | 31-40 | 41-50 | 51-60 | 61> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0% | 13.6% | 35.4% | 29.4% | 15.9% | 5.7% |

### Recriwtio

**Cynigion swyddi mewnol**

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.0% | 53.8% | 15.4% | 23.1% | 7.7% | 0.0% |

**Cynigion swyddi allanol**

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.6% | 39.3% | 31.1% | 11.5% | 11.5% | 3.3% |

## ANABLEDD

### Y gweithlu

Cynyddodd canran y staff a ddatganodd anabledd o 6.3 y cant (2022) i 7.4 y cant (2023).

| 7.4% | 83.7% | 8.8% |
|---|---|---|
| Anabl | Staff nad ydynt yn anabl | Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb |

### Recriwtio

Cynigiwyd 7.7% o swyddi mewnol i ymgeiswyr anabl.

**Cynigion swyddi allanol**

| 13.1% | 9.4% | 0.0% |
|---|---|---|
| 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |

## ETHNIGRWYDD

### Y gweithlu

4Mae 4.5 y cant o staff yn nodi eu bod o leiafrif ethnig, cynnydd o 4.2 y cant yn 2022..

Mae 45.5 y cant o'n staff sy'n nodi eu bod o leiafrif ethnig yn cael eu cyflogi ar ein lefel cyflog isaf (gradd Cymorth Tîm). Mae hyn wedi gostwng o 57.1 y cant yn 2021 a 50 y cant yn 2022.

| 4.5% | 91.6% | 3.9% |
|---|---|---|
| **Lleiafrif ethnig** | **Gwyn** | **Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb** |

### Recriwtio

Bu cynnydd yng nghanran yr holl geisiadau gan ymgeiswyr lleiafrif ethnig: o 11 y cant yn 2021-2022 i 13.0 y cant yn 2022-2023.

Cynigiwyd 0.0 y cant o swyddi mewnol i ymgeiswyr lleiafrif ethnig.

**Cynigion swyddi allanol**

| 4.9% | 7.5% | 3.2% |
|---|---|---|
| **2022-23** | **2021-22** | **2020-21** |

## SEXUAL ORIENTATION

### Y gweithlu

Mae 4.7 y cant o staff yn nodi eu bod yn LHDC+, cynnydd o 4.2 y cant yn 2022.

| 4.7% | 82.7% | 12.6% |
|---|---|---|
| **LHDC+** | **Heterorywiol/syth** | **Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb** |

### Recriwtio

Cynigiwyd 0.0 y cant o swyddi mewnol i staff LHDC+.

**Cynigion swyddi allanol**

| 13.1% | 5.7% | 9.7% |
|---|---|---|
| **2022-23** | **2021-22** | **2020-21** |

## CREFYDD/CRED

### Y gweithlu

**38.9%**
Dim crefydd/cred

**28.2%**
Cristnogol

**11.1%**
Crefydd arall

**21.8%**
Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb

### Recriwtio

**Cynigion swyddi allanol**

**45.9%**
Dim crefydd/cred

**26.2%**
Cristnogol

**23%**
Crefydd arall

**4.9%**
Byddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb

**Cynigion swyddi mewnol**

**61.5%**
Dim crefydd/cred

**23.1%**
Cristnogol

**7.7%**
Crefydd arall

**7.7%**
PrByddai'n well gennyf beidio â dweud/Dim ateb

# Adrodd ar y bwlch cyflog

## Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau – tâl fesul awr

| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau** | -4.8% | -6.5% | -5.3% | -6.7% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau** | 0.0% | -9.75% | -9.8% | -15.2% |

## Y bwlch cyflog ethnigrwydd – tâl fesul awr

| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig ethnigrwydd** | 23.5% | 26.1% | 28.1% | 20.4% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol ethnigrwydd** | 23.6% | 35.8% | 38.9% | 21.7% |

## Y bwlch cyflog anabledd – tâl fesul awr

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| **Y bwlch cyflog cymedrig anabledd** | 1.28% | -2.87% |
| **Y bwlch cyflog canolrifol anabledd** | 0.0% | 0.0% |

## Cymorth iechyd meddwl

Rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus y cymorth a ddarparwn i staff mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant. Mae ein polisi iechyd meddwl, a lansiwyd yn 2016, wrthi'n cael ei adolygu a chaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2023. Mae'r polisi'n amlinellu sut rydym yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â straen a'r ffyrdd rydym yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant gweithwyr.

Rydym hefyd wedi datblygu asesiad risg straen ac iechyd meddwl, sy'n amlinellu ein mesurau rheoli presennol, yn ogystal â mesurau arfaethedig pellach, i leihau'r risg o straen ac iechyd meddwl a llesiant gwael.

Ar ddechrau 2023, cyflwynodd ein Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant gylchlythyr llesiant newydd i staff i rannu awgrymiadau, cyngor ac adnoddau mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant. Mae'n gyfle i'r tîm AD rannu diweddariadau perthnasol a nodiadau atgoffa am y cymorth y gall staff a rheolwyr llinell gael mynediad ato. Mae'r cylchlythyr hefyd yn gyfle i staff roi eu cyfraniadau eu hunain ar ffurf blog byr, neu godi ymwybyddiaeth o bwnc penodol sy'n bwysig iddynt.

## YMLAEN – ein Interniaeth i Raddedigion o Leiafrifoedd Ethnig

Mae ein hadroddiadau amrywiaeth a chynhwysiant blaenorol wedi amlygu'r nifer isel o aelodau staff o grŵp ethnig lleiafrifol o gymharu â ffigurau demograffig lleol a chenedlaethol, ynghyd â data gweithlu a chyflog sy'n awgrymu bod y staff hyn wedi'u crynhoi yn y rolau isaf. Yn 2021, cytunodd ein Bwrdd Gweithredol i greu cynllun interniaeth i raddedigion o grŵp ethnig lleiafrifol. Eleni, rydym wedi croesawu pedwar intern i Gomisiwn y Senedd gyda'r bwriad o roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r offer iddynt sicrhau rolau rheoli yn y sector cyhoeddus.

Roedd gweithio mewn partneriaeth â Chymrodoriaeth Windsor i gyflwyno'r rhaglen yn golygu bod modd i ni hysbysebu a hyrwyddo ymhlith cymunedau amrywiol ledled Cymru, gan arwain at 63 o geisiadau am y pedair swydd. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel ac yn dangos yn glir y gall y Senedd ddenu ymgeiswyr yn llwyddiannus o ystod llawer ehangach o gymunedau.

Mae'r interniaid yn ymgymryd â hyfforddiant helaeth i ddatblygu sgiliau arwain a thechnegol a gynlluniwyd yn y gobaith o roi'r cyfle gorau posibl iddynt sicrhau cyflogaeth mewn meysydd arbenigol ar lefel rheolwr canol neu uwch. Gwnaed llawer o waith i baratoi, ymgysylltu ac uwchsgilio'r timau sy'n croesawu'r interniaid,

ac i rannu gyda'r Senedd ehangach fanteision y cynllun hwn, a arweiniodd at yr interniaid a'r timau sy'n eu croesawu yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi.

Rydym wedi lansio ein hail raglen YMLAEN yn llwyddiannus, gan ddilyn yr un broses a chyda'r un amcanion rhaglen, gyda'r nod o gael ein carfan nesaf yn dechrau ar eu hinterniaeth yn y Senedd ym mis Medi 2023.

Mae un o'n interniaid, Abida, wedi dweud y canlynol am ei phrofiad:

> *"Ar ôl astudio cyfuniad o'r gyfraith a gwleidyddiaeth, a bod â diddordeb brwd mewn cyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol, doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n gallu dod o hyd i rôl a oedd yn gweddu i fy niddordebau. Felly pan welais fod y Senedd yn cynnig y cyfle interniaeth hwn, i raddedigion o gymunedau ethnig lleiafrifol, neidiais at y cyfle. Un o'r ffactorau wnaeth fy argyhoeddi hefyd i wneud cais ar gyfer yr interniaeth oedd y ffaith nad oedd angen profiad yn y maes dan sylw, a'r ffaith y byddai cyfleoedd hyfforddiant, datblygu a hunan-ddatblygu yn cael eu cynnig drwy gydol y flwyddyn. Ar y pryd, dydw i ddim yn meddwl y byddwn wedi gwneud cais os nad oedd wedi dweud hynny!*
>
> *Cyn dod yma, doeddwn i heb weld llawer o gynrychiolaeth o'r rheini o gefndir ethnig lleiafrifol yn y Senedd, felly roedd yn beth canmoladwy gweld bod y Senedd yn gweithio'n ddiwyd i gynyddu cynrychiolaeth.*
>
> *Rwy'n ddiolchgar am y cyfleoedd rydw i wedi'u cael yn ystod fy amser yma, a'r prosiectau rydw i wedi'u harwain a gweithio arnynt.*
>
> *Fel rhywun sydd o dras Bangladeshaidd, o ffydd Islamaidd, yn dod o ardal economaidd-gymdeithasol isel a'r genhedlaeth gyntaf yn fy nheulu i fynd i'r brifysgol, rydw i wedi dod ar draws rhwystrau yn fy ngyrfa. Mae'r interniaeth wir wedi fy helpu i fagu hyder yn fy ngalluoedd. Mae fy nhîm a phawb yma wedi fy nghefnogi drwy gydol fy amser ac rwy'n gobeithio y bydd mwy o bobl o gefndir ethnig lleiafrifol yn cyfrannu at waith y Senedd a hefyd yn teimlo'n hyderus i wneud cais am swyddi yn y Senedd."*

## Polisïau cynhwysol

Rydym bob amser yn ymdrechu i osod polisïau blaengar sy'n galluogi ein staff i ffynnu, tra hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd a'r cyfle iddynt daro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o'n staff yr opsiwn i weithio gartref am rywfaint o'u hwythnos waith ac mae rhai aelodau o staff, lle mae darpariaeth y gwasanaeth yn caniatáu hynny, wedi defnyddio'r cyfle hwn i adleoli i fod yn agos at eu teuluoedd. Roedd un o'n cydweithwyr yn gweithio dros dro o'r Eidal ar ôl gorfod dychwelyd adref am gyfnod byr, a hynny am resymau teuluol.

Dyma oedd gan aelod o staff a ddychwelodd o absenoldeb mamolaeth i'w ddweud:

> *"Fel mam newydd, mae dychwelyd i'r gwaith yn gallu bod yn eithaf brawychus, ond rydw i wedi cael profiad anhygoel yma yn y Senedd. Yn ogystal â chael croeso arbennig yn ôl gan y tîm a'r gwasanaeth ehangach, rydw i hefyd wedi cael cefnogaeth anhygoel gan fy rheolwr llinell. Mae wedi fy nghefnogi i symud o wythnos waith 5 diwrnod i oriau cywasgedig, sydd wir yn addas ar gyfer fy mywyd cartref newydd. Mae hefyd wedi bod yno wrth i mi ymsefydlu yn fy rôl eto. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn i weithio mewn amgylchedd mor gynhwysol."*

# Senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru

Mae'r Senedd yn sefydliad cynhwysol a hygyrch sy'n nodi ac yn cael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal dinasyddion rhag cymryd rhan yn ei waith mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Mae pobl yn deall gwaith y Senedd a sut y gallai effeithio arnynt hwy a'u cymunedau.

## Rhaglen effeithiolrwydd pwyllgorau, ymchwil a thystiolaeth amrywiol

### Monitro pwyllgorau

Sefydlwyd rhaglen effeithiolrwydd pwyllgorau i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad yr Athro Diana Stirbu, **Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.**

Argymhelliad 5 yn yr adroddiad **yw sicrhau bod monitro amrywiaeth yn arfer cyffredin**, ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu, casglu tystiolaeth a thystion y pwyllgorau.

Mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau'r Senedd yn cofnodi gwybodaeth ddemograffig am dystion pwyllgorau, yn ogystal â phobl sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer gwaith pwyllgor, a hynny'n dystiolaeth ysgrifenedig ac yn ystod gweithgareddau ymgysylltu. Defnyddir y data hyn i nodi unrhyw fylchau yn ein cyrhaeddiad ac i helpu i ddileu rhwystrau i gyfranogiad.

Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2022, fe wnaeth pwyllgorau Senedd Cymru **gynnal prosiect peilot** i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau. Roedd y data'n dangos bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i arolygon wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau pwyllgor o'r blaen, a bod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn cyfrannu ar ran sefydliadau. Roedd hefyd yn awgrymu tangynrychioli posibl ymhlith pobl iau a hŷn; pobl nad ydynt wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch, a phobl nad ydynt yn gweithio'n llawn amser; pobl anabl, a phobl â chyfrifoldebau gofalu; pobl nad ydynt yn byw yng Nghanol De Cymru; a phobl o'r sector preifat.

Fe wnaeth **ail beilot y system monitro amrywiaeth tystiolaeth**, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot cyntaf, ddechrau ym mis Hydref 2022. Disgwyliwn gyhoeddi rhagor o wybodaeth am y canfyddiadau a'r camau nesaf ar gyfer monitro amrywiaeth tystiolaeth yn ail hanner 2023. Trafodir y posibilrwydd o gynnal amrywiaeth o waith i'w wneud yn fewnol er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan yng ngwaith pwyllgorau, gan gynnwys datblygu canllawiau a hyfforddiant newydd.

Mae rhagor o wybodaeth am adroddiad yr Athro Stirbu ar gael isod.

- Blog Ymchwil y Senedd: ***Pa mor effeithiol yw pwyllgorau'r Senedd?***
- Crynodeb o'r adroddiad: ***Briff ymchwil cryno***
- Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun peilot cyntaf ar gael ar ***flog Ymchwil y Senedd***

Mae rhagor o wybodaeth am bwysigrwydd casglu gwybodaeth fonitro ar gael yn ein herthygl Pam mae'r Senedd yn gwerthfawrogi tystiolaeth amrywiol.

## Gwella amrywiaeth arbenigedd a thystiolaeth ymchwil

Mae **rhaglen cyfnewid gwybodaeth** Ymchwil y Senedd hefyd yn ceisio gwella amrywiaeth y dystiolaeth sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd a phwyllgorau. Mae'r **Strategaeth** Cyfnewid Gwybodaeth yn amlinellu sut mae'r Senedd yn cryfhau cysylltiadau â'r gymuned ymchwil i ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi gwaith craffu a deddfu.

Yn 2022-23, gweithiodd timau ar draws y Senedd gyda'i gilydd i gyflawni'r strategaeth, drwy wneud y canlynol:

- Tyfu'r Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth i fwy na 350 o aelodau o dros 100 o brifysgolion a sefydliadau ymchwil;
- Darparu hyfforddiant i fwy na 300 o ymchwilwyr ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd;
- Cyhoeddi Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil cyntaf y Senedd i hwyluso mynediad pwyllgorau at ymchwil ac arbenigedd newydd. Nid oedd dros 65 y cant o ymatebwyr y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen, sy'n cyfateb i bron i 50 o leisiau newydd yn ymgysylltu â gwaith pwyllgorau;

- Rhoi lle i naw intern drwy'r Cynllun Interniaeth Polisi Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI);
- Datblygu cysylltiadau newydd a pharhau i gysylltu â rhai presennol fel sefydliadau ymchwil, cynghorau ymchwil, a rhwydweithiau ymchwil ledled Cymru a thu hwnt;
- Comisiynu gwaith ymchwil newydd i lenwi bylchau tystiolaeth mewn meysydd o ddiddordeb i'r Aelodau a phwyllgorau;
- Cynnal diwrnod cyfnewid thematig ynghylch plant a phobl ifanc ar gyfer swyddogion y Senedd ac ymchwilwyr o gampws SBARC newydd Prifysgol Caerdydd;
- Cyfnewid profiadau, cyngor a gwybodaeth â seneddau ledled y byd; a
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau.

## Gwaith allgymorth y pwyllgorau

Mae pob un o bwyllgorau'r Senedd yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol. Isod ceir rhai enghreifftiau o waith allgymorth y pwyllgorau a sut rydym yn ymdrechu i wneud gwaith y pwyllgorau yn hygyrch i bawb.

### Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Mae ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi hwyluso cyfweliadau â phobl o gefndiroedd gwahanol, sy'n dal, wedi dal, neu'n dymuno dal swyddi cyhoeddus. Mae ein tîm yn cefnogi'r pwyllgor i ddeall profiad pobl o fynd drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ymhellach, a pha rwystrau sy'n bodoli a allai atal ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol fel hil, rhywedd, anabledd a chefndir cymdeithasol economaidd. Defnyddiwyd arolwg sgrinio i nodi cyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae adroddiad cryno o gyfarfodydd y grŵp cynghori ar-lein ar anghydraddoldebau mewn iechyd meddwl wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad y Pwyllgor. Mae'r ddau adroddiad wedi'u cyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau i gefnogi gofynion hygyrchedd. Cafodd y deunydd sy'n ystyriol o bobl

niwrowahanol ei dreialu gan y Grŵp Cynghori Ar-lein ac roedd yn gefnogol o'r cynnwys.

### Y Pwyllgor Deisebau

Cafodd y Pwyllgor gymorth gan ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i glywed gan rieni ifanc sydd naill ai mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal, drwy drefnu pedwar grŵp ffocws gyda rhieni sydd wedi bod mewn gofal. Cynhaliwyd dwy sesiwn yng Ngogledd Cymru a dwy yn y De, gyda'r Aelodau'n cymryd rhan.

### Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Trefnodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i ymgysylltu â menywod mudol â phrofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gweithwyr rheng flaen yn Bawso yn Abertawe a Wrecsam, Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon, a Diaspora Portiwgaleg CIC CLPW Wrecsam o Gymru.

### Y Pwyllgor Cyllid

Fel rhan o'i **sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd** a lywiodd ei drafodaeth ynghylch Cyllideb Ddrafft 2023-24, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy ar-lein gydag aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar 23 Mehefin 2022 i glywed barn pobl ifanc. Cynhaliwyd dadl y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb ar **12 Gorffennaf 2022** a gwahoddwyd pum aelod o'r Senedd Ieuenctid a gymerodd ran yn y gweithdy i gyfarfod anffurfiol gyda'r Cadeirydd a'r Gweinidog ymlaen llaw. Eisteddodd y pum aelod yn yr oriel gyhoeddus yn ystod y ddadl. Cyfeiriodd y Cadeirydd at eu cyfraniad yn ystod ei sylwadau agoriadol.

### Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn gwneud gwaith ar ddiogelwch adeiladau, ac fel rhan o'r gwaith hwnnw roedd yn awyddus i glywed gan bobl yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt gan yr argyfwng diogelwch adeiladau. Mae un aelod o'r Grŵp Gweithredu ar Anabledd Lesddeiliaid ("CLADDAG") a dderbyniodd y gwahoddiad heb unrhyw leferydd gwirfoddol ac yn dangos ticiau lleisiol ac echddygol anwirfoddol.

Yn dilyn trafodaeth gyda'r tyst am ei hoffterau a'i anghenion hygyrchedd, cytunwyd y byddai'n paratoi clip fideo byr yn nodi barn am yr argyfwng diogelwch adeiladau i'w chwarae ar ddechrau'r sesiwn dystiolaeth. Yna cytunwyd y byddai unrhyw gyfraniadau pellach gan y tyst mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau yn cael eu gwneud drwy'r sgwrs Zoom fel y gallai'r tîm clercio eu darllen yn uchel.

Drwy wneud yr addasiadau hyn, roedd y tyst yn gallu cyfrannu at waith y Senedd a mynegi barn yn ffurfiol ar y Cofnod. Bydd y safbwyntiau hyn yn llywio llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru am yr effaith y mae'r argyfwng yn ei chael ar bobl anabl.

### Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae'r Pwyllgor **wedi ymrwymo** i roi lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon ei waith craffu, ac i ddefnyddio ffyrdd newydd ac arloesol o siarad â phobl nad ydynt yn cael llwyfannau yn aml – os o gwbl – i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol yn gwrando ar eu lleisiau.

Ym mis Hydref 2022, lansiodd y Pwyllgor **ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**. Roedd y Pwyllgor yn benderfynol o roi blaenoriaeth i godi lleisiau plant a phobl ifanc sydd boda phrofiad o fod mewn gofal, a'r rhieni yr oedd eu plant wedi cael eu rhoi mewn gofal, neu a oedd mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Cynlluniwyd dull gweithredu'r ymchwiliad i wneud y mwyaf o gyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc pryd bynnag y bo modd. Yn ogystal â'r ffyrdd traddodiadol o gasglu tystiolaeth, gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cynnal cyfanswm o 10 ymweliad ymgysylltu gwahanol ledled Cymru, gan siarad â phlant mewn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, rhieni biolegol, a staff o brosiectau amrywiol sy'n gweithio ochr yn ochr â hwy;
- Cynnal pedwar digwyddiad gwahanol i randdeiliaid, gan gynnwys un gyda phum grŵp o rieni biolegol â phrofiad o wahanol gamau yn y systemau gofal a llysoedd, ac un arall gyda 12 o blant rhwng 15 a 25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal a hwyluswyd gan Voices From Care Cymru;
- Cynnal **sesiwn dystiolaeth** breifat gyda Rosie Squires, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac Elisa Jenkins, gweithiwr cyfreithiol proffesiynol sydd wedi bod mewn gofal gyda phrofiad o weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yngylch y system ofal; a
- Ceisio barn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol am y system ofal drwy fynychu digwyddiad 'Proud To Be Me' Voices From Care Cymru, gan siarad â'r rhai a oedd yn

bresennol am yr ymchwiliad, a gofyn iddynt gyflwyno syniadau yn ddienw ar gyfer diwygio radical mewn blwch pleidleisio.

Bydd ei waith ymgysylltu yn llywio adroddiad terfynol y Pwyllgor. Pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi, bydd fersiwn gryno yn cael ei gyhoeddi hefyd i adrodd yn ôl i'r plant a'r bobl ifanc a lywiodd yr ymchwiliad drwy eu barn a'u profiadau.

## Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae'r Senedd yn fan lle gellir clywed lleisiau o bob cefndir. Mae'n rhywle cynhwysol a hygyrch, lle mae pob llais yn bwysig. Mae'r ethos hwn yn greiddiol i'n Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein timau wedi bod yn falch o weithio gyda phobl ledled Cymru i sicrhau bod eu straeon wrth wraidd ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu, a'n bod yn cynrychioli holl brofiadau Cymru.

Roedd hyn yn sail i thema ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, *Stori Gymreig*, lle buom yn amlygu rhai o brofiadau unigryw a theimladwy pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru ar gyfer cynnwys ein **sianeli cyfryngau cymdeithasol** a'n **gwefan**. Roedd hyn yn cynnwys straeon pobl sydd wedi ceisio lloches yng Nghymru, yn astudio yng Nghymru neu sydd wedi gwneud Cymru yn gartref iddynt. atynnodd sylw hefyd at y rhai sy'n ymgyrchu dros hawliau LHDTC+ yng Nghymru.

Dangosodd y digwyddiad ein bod yn senedd fodern sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymru. Fel rhan o'n dathliadau, cynhaliwyd ein digwyddiad yn y Senedd i groesawu ffoaduriaid o Syria a'r Wcráin, a lansiwyd arddangosfa newydd yn olrhain hanes ffoaduriaid yng Nghymru. I rai o'r gwesteion, dyma oedd eu hymweliad cyntaf â'r Senedd.

## Ymchwil a gwybodaeth ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Mae prif ffrydio materion cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan sylfaenol o'r gwaith a wneir gan dîm Ymchwil y Senedd ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff, ac mae'n hygyrch iawn i'r cyhoedd drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae costau byw, yn enwedig cynnydd mewn costau ynni a bwyd, wedi dominyddu'r agenda wleidyddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb, cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthyglau yn tynnu sylw at faterion cydraddoldeb ac effaith anghyfartal costau byw ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys **pobl**

**anabl**, **menywod**, **grwpiau incwm isel**, a **phobl mewn cymunedau gwledig**, ynghyd â'r **effaith ar iechyd a llesiant pobl**, a'r **effaith ar wresogi, bwyta a thai**. Mae Ymchwil y Senedd hefyd wedi llunio **canllaw i roi cymorth a gwybodaeth am gostau byw** sy'n cynnwys cymorth i grwpiau penodol o bobl.

Roedd erthyglau ar **anghydraddoldebau iechyd**, **rôl data wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb**, **mynediad at gyfiawnder** a **gwella canlyniadau i bobl ag anabledd dysgu (yn ystod Wythnos Anabledd Dysgu)** oll yn canolbwyntio ar y materion cydraddoldeb sy'n wynebu grwpiau penodol o bobl.

Fe wnaeth erthyglau ynghylch **cymorth i ffoaduriaid Wcrain yng Nghymru**, **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** a **hawliau dynol yn fwy cyffredinol** barhau i roi sylw i faterion sy'n wynebu ymfudwyr.

Yn ogystal â chyhoeddi erthyglau ymchwil, darparodd Ymchwil y Senedd ymchwil a chyngor i amrywiol ymchwiliadau gan bwyllgorau'r Senedd yn ymwneud ag ystod eang o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys:

- Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ***trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol*** sydd wedi'i grynhoi ***yn yr erthygl hon***, ei ymchwiliad ynghylch ***tlodi tanwydd a'r rhaglen cartrefi clyd*** a'i ***ymchwiliad i brofiadau menywod yn y system droseddol***;
- Ymchwiliad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch ***pwysau costau byw*** (2022)
- Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch ***cymorth tai i ffoaduriaid o Wcráin*** ac adroddiad ar ***ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*** sydd wedi'i grynhoi ***yn yr erthygl hon***;
- Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ***gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal;***
- Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch ***honiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru***;
- Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau ynghylch ***treialon wythnos pedwar diwrnod*** sydd wedi'i grynhoi ***yn yr erthygl hon***;

- Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ***cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*** a'i ***ymchwiliad i ddeintyddiaeth***; a'r

- Sesiwn craffu ar waith y Prif Weinidog a oedd yn canolbwyntio ar ***gydraddoldeb a hawliau dynol***.

I gefnogi'r Aelodau yn eu gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dosbarthodd y tîm ganllaw ar brif ffrydio cydraddoldeb a chynhaliodd sesiynau galw heibio i hwyluso trafodaethau ynghylch gwaith craffu sy'n sensitif i gydraddoldeb.

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid waith ymgysylltu â dinasyddion **a oedd yn cynnwys trafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb**, a'i **waith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24** a oedd ymdrin yn benodol â materion cydraddoldeb, gan gynnwys argymhellion ar effaith anghyfartal y cynnydd mewn costau byw ar ddynion a menywod.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Ymchwil y Senedd wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd i werthuso ymdrechion i brif ffrydio cydraddoldeb; a bydd yn parhau i adeiladu ar hyn i gefnogi gwaith craffu ar faterion cydraddoldeb gan bwyllgorau'r Senedd a'i waith ehangach.

**Y Pwyllgor Deisebau**

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn parhau i fod yn fan lle gall pobl Cymru godi materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant.

Ym mis Mai 2022, bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod **deiseb ar syndrom Tourette**, a chlywodd gan Aelodau ar draws pob rhanbarth o Gymru am yr heriau y mae eu hetholwyr yn eu hwynebu o ran cael cymorth priodol. Gallwch **wylio'r ddadl** neu **ddarllen y trawsgrifiad** drwy ddilyn y lincs.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi edrych ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys **rheolau ar bwy sy'n gymwys i gael bathodyn glas**, **llwybrau diagnosis ADHD**, a chodi ymwybyddiaeth o'r effaith y gall **endometriosis** ei chael ar iechyd a llesiant menywod.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ddarn o waith a glywodd brofiadau uniongyrchol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a sut brofiad oedd hi iddynt ddod yn rhieni. Cafodd ei adroddiad – **Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal** – ei

gyhoeddi ym mis Mawrth, a bydd y dystiolaeth a gawsom hefyd yn bwydo i ddarn ehangach o waith gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**Dysgu'r Aelodau**

Mae gan yr Aelodau a'u staff cymorth fynediad at raglen gynhwysfawr o weithgareddau cynefino a hyfforddi i'w cefnogi yn eu rolau. Mae hyn yn cynnwys ystod o hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth, gan gynnwys cyflwyniadau i amrywiaeth a chynhwysiant, hyfforddiant urddas a pharch, rhagfarn anymwybodol, a briffiau polisi ar feysydd amrywiaeth penodol. Mae gan yr Aelodau a'u staff cymorth fynediad hefyd at y rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, yn ogystal â chyfres o dudalennau mewnrwyd lle gallant gyrchu canllawiau a gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Arddangosfeydd y Senedd

Mae arddangosfeydd yn y Senedd yn arddangos Cymru ar ei gorau, yn amrywio o bartneriaethau â sefydliadau cenedlaethol allweddol i brosiectau wedi'u datblygu gyda chymunedau Cymru. Eleni, rydym wedi rhoi sylw i straeon hanesyddol a chyfoes am amlddiwylliannedd, ffoaduriaid, pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu.

**Tiger Bay a'r Dociau: 1880au – 1950au**

Gan weithio mewn partneriaeth â'r **Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliannol,** cafodd tair arddangosfa newydd eu creu yn y Pierhead i roi cipolwg i ymwelwyr ar fywyd amlddiwylliannol yn Tiger Bay a'r dociau rhwng yr 1880au a'r 1950au. Dewisodd y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliannol rai o'u hoff luniau o'u casgliad ac archifau lleol eraill i ddangos sut olwg oedd ar yr ardal yn y gorffennol a sut mae wedi newid. **https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/tiger-bay-a-r-dociau-1880au-1950au/**



Priodas Mohammed Hassan a Katie Link, oddeutu 1920 © anhysbys OWLS000339-13



Gorymdaith pererindod i Mecca, 1938 © anhysbys OWLS000339-18

## Ffoaduriaid yng Nghymru a ddihangodd rhag Sosialaeth Genedlaethol: Dysgu o'r Gorffennol i'r Dyfodol

Roedd yr arddangosfa hon yn olrhain hanes ffoaduriaid yng Nghymru o’r 1930au hyd heddiw. Mae’n adrodd straeon y rhai a fu’n ffoi rhag y Sosialaeth Genedlaethol yng Nghanolbarth Ewrop er mwyn dod o hyd i loches, gan gymharu eu profiadau gyda ffoaduriaid y dydd modern.







Lansiwyd yr arddangosfa mewn digwyddiad arbennig ar Ddydd Gŵyl Dewi. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid Cymru i wahodd ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru i'r Senedd i gwrdd â'r Llywydd, a mynd ar daith o amgylch yr adeilad a chael cinio Cymreig traddodiadol o gawl a pherfformiad arbennig gan gantores a ffoadur o'r Wcrain, Khrystyna Makar.

**https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/arddangosfeydd-blaenorol/ffoaduriaid-yng-nghymru-a-ddihangodd-rhag-sosialaeth-genedlaethol-dysgu-oddi-wrth-y-gorffennol-i-lywio-r-dyfodol/**



Ffoadur Almaeneg-Iddewig Kate Bosse-Griffiths gyda'i gŵr J. Gwyn Griffiths, 1939. © Heini Gruffudd.



7485
This document of identity is issued with the approval of His Majesty's Government in the United Kingdom to young persons to be admitted to the United Kingdom for educational purposes under the care of the Inter-Aid Committee for children.
5547
THIS DOCUMENT REQUIRES NO VISA.
PERSONAL PARTICULARS.
Name KRESS, Renate,
Sex Female Date of Birth 7-7-33.
Place PRAGUE.
Full Names and Address of Parents
KRESS, Otto Heinz & Hilda,
6 Kostelni,
PRAGUE VII
BRITISH COMMITTEE FOR CHILDREN
IN PRAGUE.

Cerdyn adnabod Renate Collins, a wnaeth ffoi i Dde Cymru o Prague ar y Kindertransport yn 1939. © Amy Daniel.

## This is Older

O bync-rociwr i ffermwr defaid mynydd, ac o nofwyr gwyllt i geidwaid rhandiroedd, mae Age Cymru yn falch iawn o gyflwyno arddangosfa i brocio'r meddwl sy'n ceisio chwalu stereoteipiau negyddol o bobl hŷn. Crëwyd mewn cydweithrediad â'r ffotograffydd adnabyddus Jon Pountney a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Noddwyd gan Mick Antoniw MS **https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/arddangosfeydd-blaenorol/this-is-older/**



## Trwy ein Llygaid - Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Mae Trwy ein Llygaid yn rhannu straeon pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru, mewn ffotograffau a fideos. “Mae ein harddangosfa yn herio canfyddiadau a stereoteipiau, drwy amlygu rolau a gweithgareddau pobl ag anableddau dysgu yn ein cymunedau – rolau a gweithgareddau o bwys mawr. Ry’n ni’n dathlu ein llwyddiannau ym meysydd cyflogaeth, gwirfoddoli, chwaraeon ac addysg, yn ogystal â meysydd eraill o fywyd.” **https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/arddangosfeydd-blaenorol/trwy-ein-llygaid/**






Chwaraewr pêl-fasged David yn mynd am dro yn Aberhonddu. Natasha Hirst, Trwy Ein Llygaid.



Anna yn ymarfer saethyddiaeth gyda'i thîm ym Mhrifysgol Derby. Natasha Hirst, Trwy Ein Llygaid.

## Digwyddiadau'r Senedd

### Mis Hanes Pobl Dduon

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar yr ystâd yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon, gan weithio mewn partneriaeth â Monumental Welsh Women a Chynyrchiadau ie ie.

Cynhaliwyd darlith gyntaf Betty Campbell yn y Pierhead mewn partneriaeth â Monumental Welsh Women, ac yn ogystal â chynulleidfa o wahoddedigion ac aelodau o'r cyhoedd, y siaradwr gwadd oedd yr Athro Olivette Otele, Athro Nodedig Cymynroddion a Chaethwasiaeth Cof yn SOAS, Prifysgol Llundain. Betty Campbell oedd y brifathrawes Ddu gyntaf yng Nghymru, a hynny yn Ysgol Gynradd Mount Stuart. Roeddem wrth ein bodd bod disgyblion yr ysgol wedi ymuno â ni ac wedi perfformio yn ystod y digwyddiad.

Cynhaliwyd dangosiad arbennig o ffilm arobryn Bafta, 'Black and Welsh' a digwyddiad 'mewn sgwrs' yn y Pierhead gyda'r cynhyrchydd Catryn Ramasut a'r cyfarwyddwr Lianna Stewart fel rhan o ddangosiad y ffilm yng nghornel curadu'r Senedd drwy gydol mis Hydref.



Crëwyd rhestr westai ar gyfer y ddau ddigwyddiad i gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau gan gynnwys BAWSO, EMWWAA, Race Council Cymru, Race Alliance Wales, Cymdeithas Caribïaidd Cymru, Diverse Cymru, Race Equality First, Cymdeithas Cyrhaeddiad Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, Unity in Diversity, Chwarae Teg a WEN Cymru.

Dyma beth oedd gan un o'r interniaid, Lukas Evans Santos, i'w ddweud am y rhaglen a Mis Hanes Pobl Dduon:

> *"Mae gweithredoedd yn dweud mwy na geiriau. Mae dathlu Hanes Pobl Dduon yn fwy na dim ond ei arsylwi yn ystod mis arbennig o'r flwyddyn. Mae'n fater o anrhydeddu'r gorffennol ond mae hefyd yn fater o fynd ati i ymgysylltu â'r presennol, gan obeithio am ddyfodol gwell. Mae YMLAEN yn gam mawr am y tro ond hefyd am yr hyn sydd i ddod ac mae'n cyd-fynd â'r datganiad ar ddarn £2 "standing on the shoulders of giants". Mae yna rai a ddaeth o'n blaenau ac rydym yn sefyll ar eu hysgwyddau. Mae gan yr hyn a wnawn y potensial i symud y rhai a ddaw ar ein hôl i weithle gwell, mwy derbyniol a mwy amrywiol."*



## Y Gwasanaeth Addysg

Mae ein gwasanaeth addysg yn cwrdd â disgyblion o gefndiroedd amrywiol drwy gydol y flwyddyn, a hynny yn Siambr Hywel, ein hystafell addysg bwrpasol, ac mewn ysgolion ledled Cymru. Rydym yn ymgysylltu â disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys ardaloedd economaidd-gymdeithasol is, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a disgyblion o gefndiroedd ethnig amrywiol.

### Astudiaeth achos: Trafod hil

> Gofynnodd disgyblion o Ysgol Gynradd Mount Stuart yn Butetown, Caerdydd am ddadl ynghylch "Mae addysgu Hanes Pobl Dduon yn orfodol mewn ysgolion yn gam mawr ymlaen, ond mae mwy i'w wneud." Fel rhan o'r sgwrs, dangoswyd fideo i'r disgyblion o Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn traddodi areithiau ar hiliaeth ac ymwelodd ein hathrawon â hwy ar gyfer sesiwn allgymorth cyn iddynt ymweld â Siambr Hywel. Ymddangosodd disgyblion o Ysgol Gynradd Mount Stuart mewn fideo ar gyfer y cwricwlwm newydd, lle soniwyd am Wasanaeth Addysg y Senedd.

### Astudiaeth achos: Grymuso lleisiau ifanc

> Darparodd athrawon yn ein Gwasanaeth Addysg hyfforddiant i athrawon eraill o bob rhan o Gymru mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Etholiadol. Roedd pobl yn bresennol o amrywiaeth o awdurdodau lleol ac roedd y drafodaeth yn cynnwys grymuso pobl ifanc i ddweud eu dweud beth bynnag fo'u sefyllfa economaidd, hil, rhyw a'r holl nodweddion gwarchodedig.


Welcome to the Senedd
adidas

## Senedd Ieuenctid Cymru

Lansiwyd ail Senedd Ieuenctid Cymru yn 2022 ac mae'n parhau i adael i blant a phobl ifanc 11-17 oed leisio'u barn. Pobl ifanc sy'n pleidleisio dros y Senedd Ieuenctid, a phobl ifanc sy'n ei rhedeg ar gyfer pobl ifanc.

Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli. Etholodd pob sefydliad berson ifanc o blith eu haelodaeth i'w cynrychioli ar Senedd Ieuenctid Cymru, gan sicrhau bod safbwynt unigryw pobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol yn cael ei glywed ar hyd a lled ei waith.



Pleidleisiodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i flaenoriaethu'r tri mater a ganlyn yn ystod eu tymor dwy flynedd, sef **iechyd meddwl a lles**, **addysg a'r cwricwlwm ysgol** a'r **hinsawdd a'r amgylchedd**. Un o nodau strategol Senedd Ieuenctid Cymru yw sicrhau ei bod yn mynd ati i ystyried sut mae'r holl faterion sy'n cael eu blaenoriaethu gan y Senedd Ieuenctid yn effeithio ar grwpiau o bobl ifanc sydd ar y cyrion.

Cynhaliodd y Senedd Ieuenctid gyfarfodydd yn Llandudno, Llanelli a Phontypridd ddydd Sadwrn 4 Mawrth i drafod ei gwaith ar draws y tri maes blaenoriaeth, sef ein hiechyd meddwl a'n lles, yr hinsawdd a'r amgylchedd, ac addysg a'r cwricwlwm ysgol. Cyfarfu pob un o bwyllgorau Senedd Ieuenctid Cymru ar y tri mater i drafod ystod eang o waith, gan gynnwys dadansoddi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad iechyd meddwl y Senedd Ieuenctid, cwblhau'r ymgynghoriad

diweddaraf ar drafnidiaeth gyhoeddus a phenderfynu ar gwmpas y gwaith ar gyfer yr ymgynghoriad addysg terfynol.

Yn ystod ymgynghoriad Senedd Ieuenctid Cymru ar iechyd meddwl a lles, nododd Aelodau'r Senedd Ieuenctid grwpiau penodol o bobl ifanc yr oeddent am siarad â hwy a dysgu mwy am sut mae'r mater yn effeithio arnynt. Cynhaliodd y Senedd Ieuenctid grwpiau ffocws gyda phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc ag anableddau, pobl ifanc o ardaloedd economaidd gymdeithasol isel, pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a chymunedau LHDTC+.

Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd gynhwysol a chefnogi ei Haelodau i gael mynediad at wybodaeth ac ymgysylltu â'n gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan bob un o'n cyfarfodydd gapasiti lleferydd i destun, cyfieithu Kuwaiti, a chaiff dogfennau ac ymgynghoriadau allweddol eu trosi i destun Hawdd ei Ddarllen. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Anabledd Dysgu Cymru i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'r Aelodau yn gweddu i anghenion amrywiol. Ar ben hyn, rydym wastad yn cynnig yr opsiwn i gyfieithu ein hymgynghoriadau i wahanol ieithoedd. Cafodd yr ymgynghoriad diwethaf ar Iechyd Meddwl a Lles ei gyfieithu i ieithoedd Pashto, Ffrangeg, Cwrdeg, Sorani, Fietnameg ac Arabeg ar gais.

Yn ystod penwythnos preswyl, bu Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, a Megan Elinor, artist Cymreig, i gyfansoddi cerdd o fewn darn o gelf oedd yn adlewyrchu amrywiaeth eu cefndiroedd ieithyddol a diwylliannol. Enw'r gerdd yw 'Fel Un' i adlewyrchu'r teimlad o undod ymhlith aelodau'r Senedd Ieuenctid, yn ogystal â'r cynwysoldeb a'r amrywiaeth y mae'n eu hybu. Mae chwe iaith yn y gerdd, sy'n cynrychioli'r ieithoedd a siaredir yn Senedd Ieuenctid Cymru. Yr ieithoedd hyn yw Cymraeg, Saesneg, Arabeg, Sbaeneg, Pwnjabeg, a Kinyarwanda (Rwanda).

## Fel Un

Pwy ydym ni?

Undod sy'n ysbrydoli.

Hapusrwydd, dedwyddwch

a mwynhad

ar draws y byd,

lledaenwn dosturi,

carwn â pharch a balchder

ac mae popeth yn iawn


rhwng y gwrando a'r siarad,

i siarad ac i wrando,

Ni! Ni sydd! Yn afon gref o angerdd

Lluniwn y dyfodol

Fel un.



Fel Un
Pwy ydym ni?
Togetherness sy'n Ysbrydoli
Hapusrwydd, felicidad
a mwynhad
ar draws y byd,
lledaenwn impuhwe,
carwn with respect a pharch
na nibyiza
in between the gwrando a'r siarad,
Sunna te bolna
Ussi! We are! Yn afon
gref o angerdd
نرسم المستقبل
Fel un.